# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Medi 2020

Amser: 09.00 - 12.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6443

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Jayne Bryant AS<br>Andrew RT Davies AS<br>Lynne Neagle AS<br>David Rees AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Dr Frank Atherton, Llywodraeth Cymru<br>Jo-Anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Claire Morris (Ail Glerc)<br><br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br><br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br><br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru ynghylch: (i) cynigion ar gyfer canolfan ganser newydd Felindre; (ii) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol; ac (iii) ymchwiliad y Pwyllgor i Covid-19

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru.

2.2 Gyda chytundeb y Cadeirydd, ymunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â'r sesiwn dystiolaeth ar ôl y drafodaeth ar y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig.

2.3 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu â'r Pwyllgor gopi o'r llythyr a gafwyd gan yr Arglwydd Bethell, Arweinydd y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol.

2.4. Cafodd y Pwyllgor anawsterau technegol a bu'n rhaid dod â'r trafodion i ben am gyfnod byr.

## 3 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a

## Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru ynghylch: (i) cynigion ar gyfer canolfan ganser newydd Felindre; (ii) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol; ac (iii) ymchwiliad y Pwyllgor i Covid-19 (parhad)

3.1 Parhaodd y Pwyllgor â'i sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Cadeirydd at Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ynghylch cyfleusterau gorffwys yn Ysbyty Athrofaol y Grange

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytuno i ymateb.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw.

## 6 Trafod y dystiolaeth

6.1 O ran Canolfan Ganser Felindre, cytunodd y Pwyllgor i aros am ganfyddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield.
6.2. Mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddo amlinellu'r pryderon sydd ganddo o hyd.

6.3 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chwestiynau nad modd i’r Aelodau eu gofyn yn ystod y cyfarfod oherwydd cyfyngiadau amser.